| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a Gytunwyd |
|---|---|---|---|
| 1/2/24 | Dim | **Presennol :** Y Maer Eifion Roberts, y Cyng Tony Parry, Dilys Evans, Rhys Evans, Eric Williams, Fiona Hopkins, Clare Mackintosh, Jacqueline Allen ac Eluned Jones.<br>Cyng Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd)<br>Huw Antur *(Clerc)* | • Trefniadau sgorio tendrau ymgynghorwyr Cynllun Creu Lle.<br>• Trefniadau cyfarfod Cyngor Gwynedd i drafod Cynllun Celf Canol Tref.<br>• Trefniadau gosod baner ar y Domen ac atgyweirio mainc ger cofeb Tom Ellis.<br>• Gosod lluniau o'r maer yn flynyddol yn hytrach na phrynu Cadwyn Maer newydd.<br>• Annog trigolion y dref i brynu a defnyddio offer Smartwater er mwyn atal a datrys troseddau.<br>• Gwrthwynebu cais cynllunio i osod bwrdd gwybodaeth Taith Mari Jones ger banc y NatWest oherwydd materion diogelwch cerddwyr, a nodi mai'r safle briodol ar gyfer y bwrdd fyddai o flaen hen fanc Barclays, safle'r bwrdd gwybodaeth presennol.<br>• Cefnogi cais cynllunio i newid defnydd siop yn 98 Stryd Fawr I fod yn siop de ac anrhegion bach.<br>• Trefnu i gyfarfod cynrychiolydd o Camu i'r Copa, trefnwyr Triathlon 2024.<br>• Cytuno i fynychu cyfarfod Taith Menter Iaith ar Chwefror 21ain.<br>• Cytuno i gefnogi ymgyrch Mabon ap Gwyfor i wella diogelwch ar yr A494, yn benodol y rhan rhwng y dref a Llanfor. |